**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

15 Chwefror 2022

Annwyl Russell,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**

Rwyf yn ddiolchgar i chi a'ch cyd-aelodau yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gymryd yr amser i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau (“y Bil”). Yn bwysig, rwy’n nodi ac yn croesawu’r safbwyntiau a gafwyd gan randdeilliaid.

Roeddwn yn falch o weld bod yr aelodau'n cytuno â'r safbwynt a nodais yn y memorandwm; sef bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau y tynnwyd sylw atynt.

Mae eich adroddiad yn cynnwys tri argymhelliad. Dyma fy ymateb i'r argymhellion hynny.

**Argymhelliad 1. Dylai’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth am ba baratoadau sy’n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymru ar gyfer gweithredu cymal 49 mewn perthynas â Chymru pe bai’r Bil yn cael ei basio fel y’i drafftiwyd.**

Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan nad wyf yn credu y dylid gweithredu cymal 49 yng Nghymru. Rwyf yn mawr obeithio y bydd y Senedd yn cytuno â'n barn ac, os felly, byddwn yn annog Llywodraeth y DU i wneud y gwelliannau angenrheidiol i'r Bil i sicrhau nad yw cymal 49 yn gymwys yng Nghymru.

**Argymhelliad 2. Dylai’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol roi sicrwydd y bydd cymorth iechyd meddwl a llesiant priodol ar gael i bobl yr effeithir arnynt, yn sgil defnyddio dulliau gwyddonol ar gyfer asesu oedran, pe defnyddir dulliau o’r fath yng Nghymru.**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau na ddefnyddir dulliau gwyddonol o'r fath yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y pryderon y bydd technegau o'r fath yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl a llesiant a dyma un o'r rhesymau pam nad yw ein Pecyn Cymorth Asesu Oedran yn cymeradwyo eu defnyddio.


**Argymhelliad 3. Dylai’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd y goblygiadau ariannol sy’n deillio o’r Bil yn cael eu diwallu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn unol â’r Datganiad o Bolisi Ariannu.**

Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i ystyried y goblygiadau ariannol i Gymru sy'n deillio o'u deddfwriaeth a'u penderfyniadau. Ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o wybodaeth am y gofynion ymarferol ym mhroses asesu oedran Llywodraeth y DU ac mae angen hyn i asesu'r goblygiadau ariannol yn fwy effeithiol. Byddwn yn parhau i fonitro hyn ac yn annog cyllid teg i Gymru wrth i bethau ddatblygu.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice